



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Addasiadau rhesymol i gymwysterau cyffredinol

Arfer pŵer rheoleiddiol Gweinidogion Cymru o dan
Ddeddf Cydraddoldeb 2010



Canllawiau

Dogfen ganllawiau rhif: 071/2012

Dyddiad cyhoeddi: Ebrill 2012

Addasiadau rhesymol i gymwysterau cyffredinol

Cynulleidfa	Sefydliadau dyfarnu; rheoleiddwyr cymwysterau; grwpiau anabledd; canolfannau sy'n cyflwyno dysgwyr ar gyfer arholiadau ac eraill sydd â diddordeb mewn cymwysterau cynhwysol.
Trosolwg	<p>Dan Adran 96(7) Deddf Cydraddoldeb 2010, rhoddir pŵer i'r rheoleiddwyr perthnasol (Llywodraeth Cymru yng Nghymru, Ofqual yn Lloegr ac SQA yn yr Alban) i bennu lle na ddylid gwneud addasiadau rhesymol i gymwysterau cyffredinol. Nid yw'r Ddeddf yn berthnasol i Ogledd Iwerddon sydd â deddfwriaeth cydraddoldeb ar wahân.</p> <p>Mae Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori ar eu cynigion i arfer eu pŵer. Maent wedi ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad ac yn pennu'r manylebau a amlinellir yn y ddogfen hon o ganlyniad i hynny.</p>
Camau i'w cymryd	Dylai sefydliadau dyfarnu a chanolfannau arholiad ymgyfarwyddo â'r manylebau ar addasiadau rhesymol i gymwysterau cyffredinol.
Rhagor o wybodaeth	<p>I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:</p> <p>Nia Jones Is Adran Cymwysterau a Dysgu Llywodraeth Cymru Tŷ'r Afon Bedwas CF83 8WT Ffôn: 01443 663725 e-bost: infoquals@cymru.gsi.gov.uk</p>
Copïau ychwanegol	<p>Mae'r ddogfen hon ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru yn www.cymru.gov.uk/addysgasgiliau</p> <p>Mae dogfennau'r ymgynghoriad ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru yn www.cymru.gov.uk/ymgyngoriadau</p>
Dogfennau cysylltiedig	Dim.

Cynnwys

Cyflwyniad	2
Manylebau	4
Canllawiau	6
Dyddiadau gweithredu	14
Atodiad A (Saesneg yn unig): Equality Act 2010 (Section 96)	15
Atodiad B: Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Rheoleiddiwr Cyrff Cymwysterau Cyffredinol a Chymwysterau Perthnasol) (Cymru) 2010	17
Atodiad C: Cyhoeddiadau cysylltiedig a chanllawiau	19

Cyflwyniad

1. Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 ('y Ddeddf') yn gosod dyletswydd ar gyrff cymwysterau i wneud addasiadau rhesymol ar gyfer ymgeiswyr anabl. Mae trin ymgeiswyr yn deg, a gwneud yn siŵr bod y cymhwyster yn parhau i fod yn ddilys, yn ystyriaeth bwysig.
2. Mae'r Ddeddf yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru (sef y rheoleiddiwr priodol¹ ar gyfer corff cymwysterau sy'n dyfarnu cymwysterau yng Nghymru) bennu lle **na** ddylid gwneud addasiad rhesymol i gymwysterau cyffredinol.
3. Mae gan Weinidogion Cymru'r pŵer i bennu pa gymwysterau a ddyfernir yng Nghymru a gaiff eu cynnwys yn niffiniad 'cymwysterau perthnasol' dan adran 96 y Ddeddf. Nodir y rhain yn Atodiad A.
4. Dylid nodi bod y pŵer hwn yn ymwneud â chymwysterau cyffredinol yn unig. Nid yw'n berthnasol i gymwysterau galwedigaethol. Ymdrinnir â'r cymwysterau hyn yn adran 53 y Ddeddf.
5. Mae Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori ar eu pŵer dan adran 96 o'r Ddeddf. Ar ôl ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad hwn, ac ar ôl gwneud Aseiad o Effaith ar Gydraddoldeb, mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y manylebau a nodir isod.
6. Wrth lunio'r manylebau hyn, mae Gweinidogion wedi pwysu a mesur:
 - yr angen i leihau'r graddau y mae pobl anabl yn cael eu rhoi o dan anfantais oherwydd eu hanableddau wrth geisio ennill y cymhwyster;
 - yr angen i sicrhau bod y cymhwyster yn rhoi darlun dibynadwy o wybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth y sawl sydd wedi'i gyflawni;
 - yr angen i gynnal ffydd y cyhoedd yn y cymhwyster.
7. Pan fo'r rheoleiddiwr priodol yn gwneud manylebau, bydd hyn yn diddymu'r ddyletswydd ar sefydliadau dyfarnu i wneud addasiadau rhesymol o fewn ffiniau cyfyngedig y manylebau hynny'n unig.
8. Os nad yw'r rheoleiddiwr priodol wedi gwneud unrhyw fanylebau perthnasol, mae dyletswydd gyfreithiol ar sefydliadau dyfarnu o hyd i wneud addasiadau rhesymol ar gyfer ymgeiswyr anabl. Rhaid i sefydliadau dyfarnu ystyried pa addasiadau a all fod yn rhesymol mewn unrhyw gyfres benodol o amgylchiadau. Nid yw'r ffaith nad oes manyleb ar gyfer addasiad yn golygu y bydd yr addasiad hwnnw, o anghenraid, yn rhesymol mewn unrhyw gyfres benodol o amgylchiadau.

¹ Yn Lloegr, y rheoleiddiwr priodol yw Ofqual, ac yn yr Alban y rheoleiddiwr priodol yw SQA. Nid yw Deddf Cydraddoldeb 2010 yn berthnasol i Ogledd Iwerddon gan fod deddfwriaeth gydraddoldeb ar wahân ar waith yn y wlad honno.

9. Nid yw Adran 96(7) o'r Ddeddf yn gosod cyfrifoldeb ar y rheoleiddiwr priodol i fonitro neu orfodi cyfraith gydraddoldeb. Mater i'r llys yn y pendraw yw penderfyniadau ynghylch beth sy'n gyfystyr â gwahaniaethu. Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (EHRC) yw'r corff sector cyhoeddus sy'n gyfrifol am hyrwyddo, monitro a gorfodi cydraddoldeb.
10. Nid yw Adran 96(7) o'r Ddeddf yn creu pŵer i ymgeiswyr anabl apelio i'r rheoleiddiwr priodol os gwrthodwyd addasiad ar eu cyfer. Os yw sefydliad dyfarnu wedi gwrthod addasiad i ymgeisydd anabl, gall yr ymgeisydd gwyno wrth y sefydliad dyfarnu. Gall ymgeiswyr anabl fynd â chŵyn o'r fath i'r llys dan ddeddfwriaeth gydraddoldeb.
11. Mae ymarfer presennol y sefydliadau dyfarnu ar ddefnyddio addasiadau rhesymol mewn cymwysterau cyffredinol yn seiliedig ar gyhoeddiad y Cyd-gyngor Cymwysterau (JCQ) *Access Arrangements, Reasonable Adjustments and Special Consideration - General and Vocational Qualifications*, sy'n cael ei ddiweddarau'n flynyddol. Mae cyfeiriadau yn y ddogfen hon at ymarfer presennol yn cyfeirio at yr ymarfer a nodir yn *Access Arrangements, Reasonable Adjustments and Special Consideration - General and Vocational Qualifications*.

Manylebau

Esemptiadau pan fydd popeth arall wedi methu

Ni cheir defnyddio esemptiad fel addasiad rhesymol, heblaw mewn achosion lle nad oes unrhyw addasiad rhesymol arall yn briodol.

Faint o'r cymhwyster y gellir cael esemptiad ohono

Ni cheir defnyddio esemptiad fel addasiad rhesymol a fyddai'n golygu mwy na 40 y cant o'r marciau sydd ar gael (wedi'u pwysoli) ar gyfer cymhwyster.

Gyda phrif ddysgu, mae 40 y cant o'r cymhwyster gyfwerth â 40 y cant o'r oriau dysgu dan arweiniad.

Esemptiad o gydran gyfan

Ni cheir defnyddio esemptiad o ran o gydran fel addasiad rhesymol.

Dim ond pan fydd ymgeisydd yn methu cael mynediad at unrhyw ran o'r gydran honno y ceir caniatáu esemptiadau ar gyfer y gydran gyfan.

Ffiniau gradd neu farciau pasio

Does dim dyletswydd ar gyrff dyfarnu i wneud addasiad rhesymol i ffiniau gradd a/neu farciau pasio ar gyfer ymgeiswyr anabl.

Darllenwyr

Ni cheir defnyddio darllenwyr dynol fel addasiad rhesymol pan fydd gallu'r ymgeisydd i ddarllen yn cael ei asesu.

Ysgrifenyddion a systemau adnabod llais

Ni cheir defnyddio ysgrifenyddion dynol a systemau adnabod llais fel addasiad rhesymol i arddangos sgiliau ysgrifennu pan fydd gallu'r ymgeisydd i ysgrifennu yn cael ei asesu.

Iaith Arwyddion Prydain

Ni cheir defnyddio Iaith Arwyddion Prydain fel addasiad rhesymol pan fydd gofyn i ymgeiswyr arddangos eu gallu i siarad neu wrando.

Cynorthwyr ymarferol

Ni cheir defnyddio cynorthwyr ymarferol fel addasiad rhesymol pan fydd gofyn i ymgeiswyr gyflawni tasgau corfforol neu arddangos Sgiliau corfforol sy'n rhan o amcanion asesu'r cymhwyster.

Cymhwyster Bagloriaeth Cymru

O fewn Cymhwyster Bagloriaeth Cymru, nid oes dyletswydd ar gyrff dyfarnu i eithrio ymgeiswyr o:

- (a) y gofyniad *opsiwn*;
- (b) elfennau Sgiliau Allweddol / Sgiliau Hanfodol Cymru; Cymru, Ewrop a'r Byd; Addysg Bersonol a Chymdeithasol; Addysg Gysylltiedig â Gwaith ac Ymchwiliad Unigol y *craidd*.

Canllawiau

Esemptiadau

Ni cheir defnyddio esemptiad fel addasiad rhesymol, heblaw mewn achosion lle nad oes unrhyw addasiad rhesymol arall yn briodol.

Ni cheir defnyddio esemptiad fel addasiad rhesymol a fyddai'n golygu mwy na 40 y cant o'r marciau sydd ar gael (wedi'u pwysoli) ar gyfer cymhwyster.

Gyda phrif ddysgu, mae 40 y cant o'r cymhwyster gyfwerth â 40 y cant o'r oriau dysgu dan arweiniad.

Ni cheir defnyddio esemptiad o ran o gydran fel addasiad rhesymol.

Dim ond pan fydd ymgeisydd yn methu cael mynediad at unrhyw ran o'r gydran honno y ceir caniatáu esemptiadau ar gyfer y gydran gyfan.

12. Rhoddir tua 100 o esemptiadau bob blwyddyn gan sefydliadau dyfarnu'r JCQ. Mae mwyafrif helaeth y rhain ar gyfer cymwysterau TGAU.
13. Mae esemptiad yn addasiad rhesymol a ddefnyddir pan fydd popeth arall wedi methu, lle nad oes unrhyw addasiad rhesymol arall yn briodol. Mae'n gytundeb a wneir gyda sefydliad dyfarnu, cyn yr asesiad, sy'n golygu bod ymgeisydd anabl yn cael esemptiad o gydran (neu gydrannau) cymhwyster. Pan roddir esemptiad, ystyrir mai perfformiad yr ymgeisydd yn y cydrannau a gyflawnwyd yw ei berfformiad ar gyfer y cymhwyster cyfan.
14. Defnyddir esemptiad pan fydd popeth arall wedi methu oherwydd nid yw'n galluogi ymgeiswyr i arddangos yn llawn yr hyn y gallant ei gyflawni. Dylid gwneud pob ymdrech i ganfod addasiadau rhesymol sy'n caniatáu i'r ymgeisydd gymryd rhan ym mhob elfen o'r cymhwyster a gaiff eu hasesu. Pan roddir esemptiad, nodir hynny ar dystysgrif yr ymgeisydd.
15. Mae caniatáu esemptiadau'n lleihau'r anfantais i ymgeiswyr anabl. Mae pennu cyfyngiadau penodol ar y defnydd a wneir ohonynt yn cynnal ffydd y cyhoedd ac yn helpu i sicrhau bod y cymwysterau yn rhoi darlun dibynadwy o wybodaeth, sgiliau a phrofiad ymgeiswyr.
16. Ar hyn o bryd, 50 y cant yw cyfran uchaf y cymhwyster y gellir cael esemptiad ohono. Fodd bynnag, yn ymarferol mae'r uchafswm y gwneir cais amdano'n dueddol o fod yn is, o ganlyniad i strwythur asesu llawer o gymwysterau cyffredinol, er enghraifft mewn TGAU mae rhaniad 60:40 rhwng yr asesiad dan reolaeth a'r asesiad allanol. Mae ein manyleb newydd yn pennu uchafswm o 40 y cant ar esemptiadau.

17. Dim ond pan fydd ymgeisydd yn methu cael mynediad at unrhyw ran o'r gydran honno y ceir caniatáu esemptiadau ar gyfer y gydran gyfan. Mae'r fanyleb hon yn adlewyrchu'r dull presennol a'r bwriad yw sicrhau cysondeb ar draws sefydliadau dyfarnu a helpu i sicrhau mai dim ond ar ôl i bopeth arall fethu y defnyddir esemptiadau. Fel y nodwyd ym mharagraff 14, dylid gwneud pob ymdrech i ganfod addasiadau rhesymol sy'n caniatáu i'r ymgeisydd gymryd rhan yn yr asesiad.

Enghraifft

Nid yw ymgeisydd byddar yn gallu cwblhau cydran gwranddo arholiad Saesneg. Gellir rhoi esemptiad os:

- nad oes unrhyw addasiad rhesymol arall a fyddai'n caniatáu i'r ymgeisydd ddangos bod ganddo'r sgiliau dan sylw
- yw'r gydran yn ffurfio llai na 40 y cant o'r cymhwyster
- nad yw'r ymgeisydd yn gallu gwneud unrhyw ran o'r gydran gwranddo.

Ffiniau gradd a marciau pasio

Does dim dyletswydd ar gyrff dyfarnu i wneud addasiad rhesymol i ffiniau gradd a/neu farciau pasio ar gyfer ymgeiswyr anabl.

18. Nid yw'r fanyleb hon yn newid y trefniadau presennol o gwbl.
19. Bydd pennu nad oes dyletswydd ar sefydliadau dyfarnu i wneud addasiadau rhesymol i ffiniau gradd a/neu farciau pasio yn helpu i gynnal ffydd y cyhoedd yn ogystal â sicrhau bod y cymwysterau yn rhoi darlun dibynadwy o wybodaeth, sgiliau a phrofiad yr ymgeisydd.
20. Nid yw'r dull hwn yn rhoi mantais i ymgeiswyr anabl nac yn eu rhoi o dan anfantais. Diben addasiadau rhesymol yw ceisio sicrhau bod pawb yn cael eu trin yn gyfartal lle nad yw ymgeisydd anabl yn cael ei roi dan anfantais sylweddol mewn asesiad o'i gymharu ag ymgeiswyr nad ydynt yn anabl.
21. Drwy beidio ag addasu ffiniau gradd a/neu farciau pasio, mae ymgeiswyr anabl yn gallu bod yn dawel eu meddwl eu bod wedi ennill eu cymwysterau ar sail teilyngdod. Yr un yw gwerth y cymhwyster/gradd i bob ymgeisydd.

Enghraifft

Os mai ystod marciau ar gyfer gradd C mewn Mathemateg TGAU yw 50-59 y cant, a bod ymgeisydd anabl ac ymgeisydd nad yw'n anabl yn cael 59 y cant, bydd y ddau yn cael gradd C.

Darllenwyr

Ni cheir defnyddio darllenwyr dynol fel addasiad rhesymol pan fydd gallu'r ymgeisydd i ddarllen yn cael ei asesu.

22. Gall darllenwyr fod yn ddarllenwyr dynol neu'n ddarllenwyr cyfrifiadur/sgrin, y cyfan yn darllen deunyddiau asesu ysgrifenedig. Yr ymarfer presennol yw peidio â chaniatáu darllenwyr dynol na darllenwyr cyfrifiadur/sgrin os yw gallu darllen ymgeisydd yn cael ei asesu. Fodd bynnag, gellir defnyddio'r rhain fel addasiad rhesymol os nad yw gallu'r ymgeisydd i ddarllen yn cael ei asesu.
23. Mewn amgylchedd gwaith ac ystafell ddosbarth bob dydd, gall dysgwyr ddefnyddio technolegau cymorth, megis darllenwyr sgrin, i ddilyn testun ysgrifenedig. Rydym am sicrhau bod asesiadau'n gyson â'r 'byd go-iawn' ar yr amod nad yw'n tanseilio amcanion yr asesiad.
24. Ar hyn o bryd, mae darllenwyr dynol a thechnolegau cymorth yn cael eu trin yr un fath. Fodd bynnag, mae gwahaniaethau pwysig rhyngddynt.
 - Nid yw technolegau cymorth a darllenwyr dynol yn dehongli testun yr un fath. Mae darllenwyr dynol yn gallu ychwanegu haenen o ddehongli geiriol (arlliw ac ystyr), a allai effeithio ar ymateb yr ymgeisydd, a thrwy hynny, peryglu dibynadwyedd y cymhwyster.
 - Mae technolegau cymorth yn caniatáu ar gyfer annibyniaeth, yn wahanol i ddarllenwyr dynol.
25. Mae ein manyleb newydd yn rhoi sylw i'r gwahaniaethau hyn. Pan fydd gallu darllen ymgeisydd yn cael ei asesu, bydd hawl defnyddio technolegau cymorth megis darllenwyr cyfrifiadur/sgrin mewn asesiadau darllen – sy'n wahanol i'r sefyllfa bresennol. Fodd bynnag, ni fydd hawl o hyd i ddefnyddio darllenwyr dynol mewn asesiadau o'r fath er mwyn sicrhau bod y cymhwyster yn rhoi darlun dibynadwy o wybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth yr ymgeisydd.

Enghraifft

Mewn arholiad darllen Cymraeg neu Saesneg TGAU a gynlluniwyd i brofi gallu'r ymgeisydd i ddarllen, ni ddylid defnyddio darllenwyr dynol. Yn yr achos hwn, gellid ystyried addasiadau rhesymol eraill, megis defnyddio darllenwyr cyfrifiadur/sgrin.

Ysgrifenyddion a thechnoleg adnabod llais

Ni cheir defnyddio ysgrifenyddion dynol a systemau adnabod llais fel addasiad rhesymol i arddangos sgiliau ysgrifennu pan fydd gallu'r ymgeisydd i ysgrifennu yn cael ei asesu.

26. Defnyddir ysgrifenyddion a thechnolegau cymorth, megis systemau adnabod llais, pan nad yw ymgeiswyr yn gallu ysgrifennu neu deipio gan ddefnyddio prosesydd geiriau. Ysgrifenyddion yw pobl sy'n ysgrifennu neu'n teipio atebion llafar yr ymgeisydd. Mae systemau adnabod llais yn cynhyrchu ffeil electronig a chopi caled pan fydd ymgeisydd yn llefaru i gyfrifiadur.
27. Mae'r fanyleb hon yn adlewyrchu'r ymarfer presennol. Yn y rhan fwyaf o gymwysterau, mae defnyddio ysgrifenyddion a systemau adnabod llais yn addasiad rhesymol priodol. Fodd bynnag, pan fydd cymwysterau'n asesu'n benodol y gallu i ysgrifennu, megis cymwysterau TGAU Cymraeg, Saesneg ac ieithoedd tramor modern, mae defnyddio ysgrifenyddion neu systemau adnabod llais yn gallu cael effaith uniongyrchol ar yr amcanion asesu.
28. Nid yw'r fanyleb hon yn atal defnyddio ysgrifenyddion a systemau adnabod llais yn gyfan gwbl. Fodd bynnag, pan ddefnyddir ysgrifenyddion a systemau adnabod llais, ni fydd marciau a roddir ar gyfer sillafu, atalnodi a gramadeg ar gael i'r ymgeisydd, oni bai bod yr ymgeisydd yn sillafu llythrennau pob gair i'r ysgrifennydd. Mae hyn yn sicrhau mai sgiliau cywirdeb iaith yr ymgeisydd sy'n cael eu hasesu, ac nid sgiliau'r ysgrifennydd.

Enghreifftiau

- Mewn asesiad AS dylunio a thechnoleg, gellir defnyddio system adnabod llais neu ysgrifennydd fel addasiad rhesymol oherwydd nad yw gallu'r ymgeisydd i ysgrifennu yn ffurfio rhan o amcanion yr asesiad.
- Mewn asesiad ysgrifennu TGAU Ffrangeg, ni cheir defnyddio system adnabod llais oherwydd byddai'n cynhyrchu geiriau heb alluogi'r ymgeisydd i arddangos ei allu ei hun i ysgrifennu Ffrangeg yn gywir. Fel addasiad rhesymol arall, gallai ymgeisydd lefaru atebion i beiriant recordio yn ystod yr asesiad. Yna, gallent ail-redeg y recordiad, gan sillafu geiriau unigol i ysgrifennydd.
- Mewn asesiad ysgrifennu TGAU Saesneg, gellir defnyddio ysgrifennydd fel addasiad rhesymol. Fodd bynnag, ni roddir marciau i'r ymgeisydd am sillafu ac atalnodi a gynhyrchwyd gan yr ysgrifennydd.

Iaith Arwyddion Prydain

Ni cheir defnyddio iaith Arwyddion Prydain fel addasiad rhesymol pan fydd gofyn i ymgeiswyr arddangos eu gallu i siarad neu wrando.

29. Ar hyn o bryd, nid yw defnyddio iaith Arwyddion Prydain (BSL) ar gael fel addasiad rhesymol yng nghydrannau siarad a gwrando'r rhan fwyaf o gymwysterau cyffredinol Cymraeg, Saesneg ac iaith dramor fodern. Y rheswm am hyn yw:
- Mae BSL yn cael ei chydabod fel iaith yn ei rhinwedd ei hun.
 - Mae meini prawf cyfredol cymwysterau TGAU Cymraeg, Saesneg ac ieithoedd tramor modern yn cyfeirio'n benodol at y gallu i *siarad* a *gwrando*, ac nid ydynt yn cyfeirio at gyfathrebu anysgrifenedig yn yr ystyr ehangach.
30. Yn y tymor hwy, rydym am ddatblygu dull gweithredu mwy cyson o ran defnyddio BSL ar draws pob cymhwyster Cymraeg, Saesneg ac iaith dramor fodern. Fodd bynnag, ceir rhesymau clir dros fabwysiadu dulliau gweithredu gwahanol sy'n ymwneud yn uniongyrchol ag amcanion asesu cyfredol. Gan fod y rhain yn dal mewn grym, rhaid i'n manyleb ystyried y gwahaniaethau hyn.

Enghraifft

Mewn asesiad gwrando TGAU Almaeneg, ni fyddai hawl darparu dehonglydd BSL. Byddai caniatáu ei ddefnyddio yn golygu nad oedd yr ymgeisydd yn dangos ei allu i ddeall Almaeneg llafar, sef un o amcanion yr asesiad. Gellir caniatáu addasiadau rhesymol eraill, megis dehonglydd llais awgrymol, neu pan nad yw'r rhain yn briodol, gellir gofyn am esemptiad.

Cynorthwyr ymarferol

Ni cheir defnyddio cynorthwyr ymarferol fel addasiad rhesymol pan fydd gofyn i ymgeiswyr gyflawni tasgau corfforol neu arddangos Sgiliau corfforol sy'n rhan o amcanion asesu'r cymhwyster.

31. Byddai caniatáu cynorthwyr ymarferol i arddangos sgiliau corfforol sy'n ffurfio rhan o amcanion yr asesiad yn tanseilio ffydd y cyhoedd yn y cymhwyster, gan na fyddai'r ymgeiswyr yn cael eu hasesu ar sail eu galluoedd eu hunain.
32. Mae'r fanyleb hon yn adlewyrchu'r ymarfer presennol, ac nid yw'n atal defnyddio cynorthwyr ymarferol i gyflawni tasgau nad ydynt yn rhan o amcanion yr asesiad.

Enghreifftiau

- Pan fydd ymgeiswyr yn cael eu hasesu ar eu gallu i chwarae offeryn cerdd mewn cymhwyster cerddoriaeth, nid oes hawl gan gynorthwydd ymarferol arddangos y sgiliau hynny ar ran yr ymgeisydd.
- Os oes angen cymorth ar ymgeisydd anabl i droi tudalennau mewn arholiad ysgrifenedig, neu symud offer mewn asesiad ymarferol gwyddonol, gall cynorthwydd ymarferol gyflawni'r tasgau hynny gan nad yw'r sgiliau corfforol hyn yn rhan o amcanion yr asesiad.

Cymhwyster Bagloriaeth Cymru (CBC)

O fewn Cymhwyster Bagloriaeth Cymru, nid oes dyletswydd ar gyff dyfarnu i eithrio ymgeiswyr o:

- (a) y gofyniad *opsiwn*;
- (b) elfennau Sgiliau Allweddol / Sgiliau Hanfodol Cymru; Cymru, Ewrop a'r Byd; Addysg Bersonol a Chymdeithasol; Addysg Gysylltiedig â Gwaith ac Ymchwiliad Unigol y *craidd*.

- 33. Mae'r CBC yn cynnwys gofyniad Craidd, y mae pob dysgwr yn ei gwblhau, ac Opsiynau, sy'n cael eu dewis o'r ystod o gymwysterau perthnasol y cymeradwyir eu defnyddio yng Nghymru.
- 34. Mae'r fanyleb yn adlewyrchu'r trefniadau presennol oherwydd maent wedi profi'n effeithiol. Gallai newid y rhain danseilio ffydd y cyhoedd yn y CBC.
- 35. Ar gyfer yr Opsiynau, defnyddir addasiadau rhesymol, gan gynnwys esemptiadau, fel y'u pennwyd ar gyfer y cymwysterau unigol dan sylw. Ni ellir caniatáu unrhyw esemptiad o ofyniad Opsiwn y CBC. Mae hyblygrwydd sylweddol eisoes ar gael, gan fod dysgwyr yn gallu dewis eu Hopsiynau o blith yr ystod lawn o gymwysterau perthnasol y cymeradwyir eu defnyddio yng Nghymru.
- 36. Ni ellir rhoi unrhyw esemptiad o elfennau Sgiliau Allweddol/Sgiliau Hanfodol Cymru; Cymru, Ewrop a'r Byd; Addysg Bersonol a Chymdeithasol; Addysg Gysylltiedig â Gwaith ac Ymchwiliad Unigol y Craidd.
- 37. Nid oes gan y cydrannau Cymru, Ewrop a'r Byd; Addysg Bersonol a Chymdeithasol; ac Addysg Gysylltiedig â Gwaith feini prawf asesu penodol, ac mae manylebau CBC yn caniatáu ar gyfer hyblygrwydd sylweddol yn y ffyrdd y gellir cwblhau'r cydrannau hyn. Er na chaniateir unrhyw esemptiad o'r cydrannau Craidd CBC hyn, caniateir addasiadau rhesymol eraill, fel y bo'n briodol.
- 38. Lluniwyd meini prawf asesu cydran Ymchwiliad Unigol y Craidd mewn ffordd sy'n cynnig sgôp sylweddol ar gyfer hyblygrwydd. Gall dysgwyr gyflwyno'r Ymchwiliad Unigol naill ai ar bapur neu ar lafar. Er na chaniateir unrhyw esemptiad o'r gydran Craidd CBC hon, caniateir addasiadau rhesymol eraill, fel y bo'n briodol.

Enghraifft

Ni ddylid rhoi esemptiad i ymgeisydd anabl ar gyfer CBC Lefel 2 (canolradd) o'r gofyniad i gyflawni pedwar cymhwyster Sgiliau Allweddol/Sgiliau Hanfodol Cymru. Fodd bynnag, gellid hepgor y gofyniad i gyflawni pob un o'r tair cydran Cyfathrebu, Cymhwyso Rhif a TGCh: byddai unrhyw ddwy o'r rhain yn dderbyniol.

Dyddiadau gweithredu

Bydd yr holl fanylebau hyn, ac eithrio'r fanyleb ynghylch faint o gymhwyster y gellir cael esemptiad ohono, yn dod i rym ar 12 Mawrth 2012.

Gan fod y ganran uchaf o gymhwyster y gellir cael esemptiad ohono yn cael ei ostwng o 50 y cant i 40 y cant, bydd hyn yn dod i rym ar gyfer dysgwyr sy'n dechrau ar eu cwrs cymhwyster ym mis Medi 2012. Ni fydd y fanyleb hon yn berthnasol i ddysgwyr sydd eisoes wedi dechrau ar gwrs a fydd yn dod i ben naill ai yn nhymor yr Haf 2012 neu dymor yr Haf 2013.

Mae'r manylebau'n pennu'r addasiadau rhesymol **na cheir** eu defnyddio fel nad ydynt yn peryglu safonau na hygreddedd cymwysterau cyffredinol. Mae sefydliadau dyfarnu'n gyfrifol am benderfyniadau ynghylch pa addasiadau a roddir a chaiff y rhain eu hystyried fel arfer ar sail unigol, yn dibynnu ar anghenion y dysgwr. Nid yw'r ffaith nad oes manyleb ar gyfer addasiad yn golygu y bydd yn rhesymol dan unrhyw amgylchiadau penodol.

Bydd Llywodraeth Cymru, gan weithio â'r rheoleiddiwr cymwysterau yn Lloegr (Ofqual), yn adolygu'r manylebau hyn yn rheolaidd ac yn eu diweddarau yn ôl y gofyn.

Atodiad A (Saesneg yn unig): Equality Act 2010 (Section 96)

Section 96 Qualifications bodies

- (1) A qualifications body (A) must not discriminate against a person (B)—
 - (a) in the arrangements A makes for deciding upon whom to confer a relevant qualification;
 - (b) as to the terms on which it is prepared to confer a relevant qualification on B;
 - (c) by not conferring a relevant qualification on B.

- (2) A qualifications body (A) must not discriminate against a person (B) upon whom A has conferred a relevant qualification—
 - (a) by withdrawing the qualification from B;
 - (b) by varying the terms on which B holds the qualification;
 - (c) by subjecting B to any other detriment.

- (3) A qualifications body must not, in relation to conferment by it of a relevant qualification, harass—
 - (a) a person who holds the qualification, or
 - (b) a person who applies for it.

- (4) A qualifications body (A) must not victimise a person (B)—
 - (a) in the arrangements A makes for deciding upon whom to confer a relevant qualification;
 - (b) as to the terms on which it is prepared to confer a relevant qualification on B;
 - (c) by not conferring a relevant qualification on B.

- (5) A qualifications body (A) must not victimise a person (B) upon whom A has conferred a relevant qualification—
 - (a) by withdrawing the qualification from B;
 - (b) by varying the terms on which B holds the qualification;
 - (c) by subjecting B to any other detriment.

- (6) A duty to make reasonable adjustments applies to a qualifications body.

- (7) Subsection (6) does not apply to the body in so far as the appropriate regulator specifies provisions, criteria or practices in relation to which the body—
 - (a) is not subject to a duty to make reasonable adjustments;
 - (b) is subject to a duty to make reasonable adjustments, but in relation to which such adjustments as the regulator specifies should not be made.

- (8) For the purposes of subsection (7) the appropriate regulator must have regard to—
- (a) the need to minimise the extent to which disabled persons are disadvantaged in attaining the qualification because of their disabilities;
 - (b) the need to secure that the qualification gives a reliable indication of the knowledge, skills and understanding of a person upon whom it is conferred;
 - (c) the need to maintain public confidence in the qualification.
- (9) The appropriate regulator—
- (a) must not specify any matter for the purposes of subsection (7) unless it has consulted such persons as it thinks appropriate;
 - (b) must publish matters so specified (including the date from which they are to have effect) in such manner as is prescribed.
- (10) The appropriate regulator is—
- (a) in relation to a qualifications body that confers qualifications in England, a person prescribed by a Minister of the Crown;
 - (b) in relation to a qualifications body that confers qualifications in Wales, a person prescribed by the Welsh Ministers;
 - (c) in relation to a qualifications body that confers qualifications in Scotland, a person prescribed by the Scottish Ministers.
- (11) For the purposes of subsection (10), a qualification is conferred in a part of Great Britain if there are, or may reasonably be expected to be, persons seeking to obtain the qualification who are or will be assessed for those purposes wholly or mainly in that part.

Atodiad B: Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Rheoleiddiwr Cyrff Cymwysterau Cyffredinol a Chymwysterau Perthnasol) (Cymru) 2010

Offerynnau Statudol 2010 Rhif 2217 (Cy.193)

<i>Gwnaed</i>	<i>6 Medi 2010</i>
<i>Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru</i>	<i>7 Medi 2010</i>
<i>Yn dod i rym</i>	<i>1 Hydref 2010</i>

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 96(10) a 97(3) o Ddeddf Cydraddoldeb 2010, yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1. (1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Ddeddf Cydraddoldeb 2010 (Rheoleiddiwr Cyrff Cymwysterau Cyffredinol a Chymwysterau Perthnasol) (Cymru) 2010.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn dod i rym ar 1 Hydref 2010 ac maent yn gymwys o ran Cymru.

Y rheoleiddiwr priodol

2. Mae Gweinidogion Cymru wedi eu rhagnodi fel y rheoleiddiwr priodol mewn perthynas â chorff cymwysterau sy'n rhoi cymwysterau yng Nghymru.

Cymwysterau perthnasol

3. Mae'r cymwysterau a restrir yn yr Atodlen wedi eu rhagnodi'n gymwysterau perthnasol mewn perthynas â rhoi cymwysterau yng Nghymru.

Leighton Andrews

Y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes, un o Weinidogion Cymru
6 Medi 2010

Yr Atodlen

1	Dyfarniadau Uwch Estynedig
2	Cymwysterau tystysgrif lefel mynediad
3	Cymwysterau Mathemateg Annibynnol
4	Sgiliau Gweithredol
5	Tystysgrif Addysg Gyffredinol lefel A (U ac UG)
6	Tystysgrif Gyffredinol Addysg Uwchradd
7	Y Fagloriaeth Ryngwladol
8	Sgiliau Allweddol a Sgiliau Hanfodol Cymru
9	Cymwysterau Prif Ddysgu a Phrosiect
10	Tystysgrif Graidd Cymhwyster Bagloriaeth Cymru

Nodyn esboniadol

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r Rheoliadau hyn yn rhagnodi mai'r rheoleiddiwr priodol at ddibenion adran 96 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yw Gweinidogion Cymru. Caiff y rheoleiddiwr priodol bennu materion nad ydynt yn cael eu dal gan y ddyletswydd sydd ar gyrff cymwysterau o dan yr adran honno i wneud addasiadau rhesymol ar gyfer pobl anabl.

Mae'r Rheoliadau hyn yn rhagnodi hefyd mai'r cymwysterau a restrir yn yr Atodlen yw'r cymwysterau perthnasol at ddibenion adrannau 96 a 97 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

Atodiad C: Cyhoeddiadau cysylltiedig a chanllawiau

The Equality Act 2010 www.legislation.gov.uk

The final Impact Assessment for the Equality Act www.equalities.gov.uk

Asesiad o effaith ar gydraddoldeb – Addasiadau rhesymol i Gymwysterau Cyffredinol (Saesneg yn unig) www.wales.gov.uk/topics/equality

Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Rheoleiddiwr Cyrff Cymwysterau Cyffredinol a Chymwysterau Perthnasol) (Cymru) 2010 www.legislation.gov.uk

Access Arrangements, Reasonable Adjustments and Special Consideration – General and Vocational Qualifications, Joint Council for Qualifications (updated annually) www.jcq.org.uk

Mynediad teg drwy gynllunio, AdAS, Ofqual, CCEA
www.wales.gov.uk/topics/educationandskills

Yr egwyddorion sy'n llywodraethu defnyddio esemptiadau ar sail anabledd ar gyfer Cymhwyster Bagloriaeth Cymru www.ngfl-cymru.org.uk

Code of Practice in relation to Trade organisations, Qualifications bodies and general Qualifications Bodies, Equality and Human Rights Commission (not yet updated to reflect changes made by 2010 Equality Act)
www.equalityhumanrights.com

Codes of Practice revised by the 2010 Equality Act, Equality and Human Rights Commission www.equalityhumanrights.com

New Public Sector Equality Duty guidance, Equality and Human Rights Commission www.equalityhumanrights.com